

GRŴP DATBLYGU CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 3 Chwefror 2016, Merthyr Tudful

Yn bresennol

Cadeirydd

Chris Gittins (CG) Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru

Swyddogion Llywodraeth Cymru

Charlotte Anscombe (CA)	Yr Uned Cynhwysiant Ariannol
Erika Helps (EH)	Yr Uned Cynhwysiant Ariannol
Kathryn Markey (KM)	Yr Uned Cynhwysiant Ariannol
Beverley Morgan (BM)	Trechu Tlodi (Polisi a Dadansoddi)
Karl Thomas (KT)	Llywodraeth Cymru, Yr Is-adran Polisi Tai (Diwygio Lles [Tai] a Swyddogion Rhenti Cymru)

Aelodau / Yn dirprwyo dros aelodau

Dave Brown (DB)	Canolfan Cydweithredol Cymru
Helene Hayes (HH)	Cyngor ar Bopeth Cymru
Lisa Hayward (LH)	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Leanne Herberg (LH)	Undeb Credyd Caerdydd a'r Fro
Paul Langley (PL)	Cartrefi Cymunedol Cymru
Helen Matthews (HM)	Yr Adran Gwaith a Phensiynau (Rhaglen Credyd Cynhwysol)
Lee Phillips (LP)	Y Gwasanaeth Cyngori Ariannol
Jayne Simpson (JS)	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (yn cynrychioli Tony Kirk)

Ysgrifenyddiaeth

Jan Morgan (JM) Uned Cynhwysiant Ariannol, Llywodraeth Cymru

Ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol

Ian Albert (IA)	Yr Adran Gwaith a Phensiynau
Elizabeth Emmons (EE)	Uned Benthycu Arian Anghyfreithlon Cymru
Rhys Evans (RE)	Enwebwyd gan Bethan Jenkins AC
Tony Kirk (TK)	Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (yn cynrychioli buddiannau'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyd yng Nghymru)
Michael Curties (MC)	Llywodraeth Cymru, Yr Is-adran Gymunedau (Datblygu Rhaglenni)
Pat McCarthy (PMc)	Llywodraeth Cymru, Addysg a Sgiliau (Pennaeth Pynciau Craidd – Cwricwlwm)

1. Croeso a chyflwyniadau

- 1.1 Croesawodd CG yr aelodau i bedwerydd cyfarfod y Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol. Croesawodd CG Jayne Simpson a oedd yn dirprwyo

GRŴP DATBLYGU CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 3 Chwefror 2016, Merthyr Tudful

dros Tony Kirk. Daeth ymddiheuriadau i law gan Ian Albert, Elizabeth Emmons, Rhys Evans, Tony Kirk, Michael Curties a Pat McCarthy.

2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol / materion yn codi o'r cofnodion

- 2.1 Roedd cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd ar 8 Medi 2015 wedi'u dosbarthu i'r aelodau yn dilyn y cyfarfod, a derbyniwyd eu bod yn gywir cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru.
- 2.2 Roedd yr holl gamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol wedi'u cwblhau.
- 2.3 Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

3. Y wybodaeth ddiweddaraf am yr amserlen ar gyfer diweddaru'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol – cyfraniad y Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol

- 3.1 Amlinellodd KM y gweithgareddau a oedd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf ym mis Medi o safbwynt ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn digwyddiadau ymgynghori. Roedd yr ymatebion wedi cael eu dadansoddi ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben ar 4 Ionawr. Roedd y gwaith dadansoddi'n dangos bod mwyafrif yr ymatebion i'r ymgynghoriad, a oedd yn ymwneud â gweledigaeth a themâu craidd y Strategaeth, yn cytuno â chynigion ac egwyddorion y Strategaeth ddrafft.
- 3.2 Esboniodd KM fod nifer o sylwadau adeiladol wedi dod i law gan amrywiaeth o randdeiliaid mewn digwyddiadau ymgynghori. Byddai'r rhain yn cael eu hymgorffori yn y Strategaeth ddrafft ddiwygiedig neu'n cael eu defnyddio i lywio cynnwys y Cynllun Cyflawni a fyddai'n cael ei ddatblygu'n nes ymlaen yn y flwyddyn.
- 3.3 Esboniodd KM ei bod wedi adolygu a diweddaru llawer o gynnwys y Strategaeth yn sgil yr ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad a'r adborth a gafwyd gan randdeiliaid. Mae'r Strategaeth ddrafft wrthi'n cael ei diweddaru ymhellach â gwybodaeth ffeithiol ar gyfer yr adrannau'n ymwneud â chyd-destun; nid yw'r gwaith diweddaru'n ymwneud â'r weledigaeth, y themâu na'r ymrwymïadau.
- 3.4 Nododd KM ei bod hi a CG wedi cael cyfarfod â Joseph Allen o Gymdeithas Undebau Credyd Prydain ynghylch strategaeth ddrafft Undebau Credyd Cymru, sy'n cael ei datblygu ar hyn o bryd gan yr Undebau Credyd. Cadarnhawyd y dylai'r Strategaeth honno gan yr Undebau Credyd gael ei chwblhau mewn pryd iddi gael ei hadlewyrchu yn y Strategaeth Cynhwysiant Ariannol derfynol.
- 3.5 Dywedodd KM fod y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi wedi mynychu'r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol ar 27 Ionawr 2016 a oedd yn ymwneud ag Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru: dulliau o drechu tlodi

GRŴP DATBLYGU CYNHWYSIANT ARIANNOL CYMRU

Nodiadau cyfarfod – 3 Chwefror 2016, Merthyr Tudful

yn y gymuned, a'r gwaith o ddiweddarau Strategaeth Cynhwysiant Ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2016. Roedd trawsgrifiadau o drafodaethau'r Pwyllgor ar gael neu gellid gweld cyfarfod y Pwyllgor ar Senedd.tv.

4. Datblygu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016 – trafodaeth ynglŷn â'r ddogfen ymgynghori ddrafft

- 4.1 Cyflwynodd KM y drafodaeth ford gron am y newidiadau i'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol ddrafft yn dilyn yr ymgynghoriad, drwy ddarparu trosolwg o'r ddogfen. Esboniodd fod y Strategaeth yn cynnwys newidiadau i'r ymrwymadau yn ogystal â thestun y byddai'r grŵp yn ei drafod.
- 4.2 Roedd yr aelodau wedi'u gwahodd i gyflwyno sylwadau ar y Strategaeth ddrafft cyn y cyfarfod. Diolchodd KM i Rhys Evans, Tony Kirk, Pat McCarthy a Karl Thomas am eu sylwadau a oedd wedi dod i law cyn y cyfarfod. Nododd fod cyfarfod wedi'i drefnu hefyd ag Ian Albert o'r Adran Gwaith a Phensiynau i drafod y Strategaeth. Esboniodd KM y byddai adborth o'r drafodaeth heddiw yn cyfrannu i fersiwn derfynol y Strategaeth, a gwahoddodd yr aelodau i ddefnyddio'r cyfarfod fel cyfle i gynnig unrhyw sylwadau neu awgrymiadau ynghylch y testun. Nododd KM y byddai modd i'r aelodau ddarparu sylwadau ysgrifenedig ar ôl y cyfarfod hefyd.
- 4.3 Cafwyd trafodaeth eang wedyn a fu'n canolbwyntio ar y testun ar gyfer y weledigaeth, y tair prif thema a'r ymrwymadau yn y Strategaeth. Esboniodd KM fod rhai o'r ymrwymadau yn y Strategaeth ddrafft wedi'u diwygio, a gwahoddodd yr aelodau i ystyried a oeddent yn briodol. Yn ogystal, gwahoddodd unrhyw sylwadau/awgrymiadau a fyddai'n atgyfnerthu'r testun.

Gweithredu: KM i ddosbarthu'r sleidiau PowerPoint a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfarfod.

Gweithredu: Aelodau'r Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol i roi sylwadau / gwneud awgrymiadau ynghylch unrhyw ddiwygiadau terfynol i'r Strategaeth ddrafft.

5. Y camau nesaf ac unrhyw fater arall

- 5.1 Diolchodd CG i aelodau'r Grŵp Datblygu Cynhwysiant Ariannol am eu help gwerthfawr a'u cymorth adeiladol wrth ddatblygu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol 2016.
- 5.2 Fel y nodwyd yn nogfen y Strategaeth, bydd trafodaethau'n cael eu cynnal i benderfynu ar ddeinameg aelodaeth a chylch gorchwyl grŵp diwygiedig a fyddai'n ymwneud â datblygu a gweithredu'r Cynllun Cyflawni a fydd yn cyd-fynd â'r Strategaeth Cynhwysiant Ariannol.